Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Sarah Jones
Ysgol Gynradd Gymuned Cwm-bach
Heol Llan-gors
Cwm-bach
Aberdâr
Rhondda Cynon Taf
CF44 0HS

20/03/2025

Annwyl Sarah Jones

**Ymweliad interim:** Mawrth 2025

Yn ddiweddar, ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymuned Cwm-bach i ystyried sut mae'r ysgol wedi dod yn ei blaen wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'r arolygiad craidd ym mis Mehefin 2022. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion ac edrych ar eu gwaith, a siarad â staff ac arweinwyr.

Isod, ceir crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y meysydd ffocws hyn. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i arweinwyr ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i gefnogi gwelliannau pellach.

**Ffocws yr ymweliad**

**Sicrhau bod yr addysgu'n cynnig y lefel briodol o gymorth neu her yn gyson ar draws ehangder y cwricwlwm**

- Ers yr arolygiad craidd, mae staff wedi cydweithio â'i gilydd yn effeithiol i ystyried y ffyrdd gorau i gynnig y lefel briodol o gymorth a her i ddisgyblion yn eu dysgu.
- Mae dysgu ac ymchwil proffesiynol wedi canolbwyntio ar ffyrdd i fynd i'r afael â'r cwricwlwm i'w wneud yn hygyrch i bawb, ond cynnig cyfleoedd i ddisgyblion wneud cynnydd da a chyflawni'n dda.
- Mae dull cyson, strwythuredig o addysgu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol wrth wraidd gwaith yr ysgol. Mae hyn yn galluogi pob disgybl i ddatblygu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn systematig trwy wersi â ffocws.

- Mae'r gwersi hyn yn aml yn heriol ac, mewn llawer o achosion, mae staff yn darparu cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus i alluogi disgyblion i gyflawni'n dda a chwblhau eu gwaith. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, nid yw athrawon yn addasu'r gweithgareddau dysgu yn ddigon da i fodloni anghenion pob disgybl ac annog annibyniaeth.
- Mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, mae athrawon yn darparu ystod dda o gyfleoedd sy'n cynnig her addas i ddisgyblion weithio'n fwy rhydd, meddwl yn greadigol a gweithredu'n annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd hyn i gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol cadarn i gyd-destunau eraill ac mewn meysydd dysgu yn gymwys.

**Gwella effeithiolrwydd llywodraethu, gan sicrhau bod pob llywodraethwr yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau**

- Mae lefel ac ansawdd cymorth a her llywodraethwyr wedi gwella'n sylweddol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi arwain at atebolrwydd mwy trylwyr ac yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir gan y corff llywodraethol yn canolbwyntio ar wella profiadau a deilliannau dysgwyr.
- Mae llywodraethwyr yn ymgysylltu'n dda â'r ysgol, yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ac yn cyfrannu'n weithredol. Mae hyn yn eu helpu i fod yn wybodus a gallu cynnig cymorth a her ystyrlon i arweinwyr yr ysgol.
- Mae bron pob swydd llywodraethwr wedi'i llenwi ac mae pawb wedi cwblhau archwiliad medrau manwl er mwyn helpu i sicrhau y caiff eu medrau eu defnyddio'n effeithiol. Mae hyn wedi creu llywodraethu cryf a sefydlog sy'n cefnogi arweinwyr yr ysgol ac yn ysgogi gwelliant yr ysgol.
- Erbyn hyn, mae'r corff llywodraethol yn deall sut i ddyrannu a defnyddio cyllid grant yn briodol. Mae hyn yn golygu bod llywodraethwyr yn gwneud penderfyniadau mwy gwybodus sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion.
- Mae llywodraethwyr yn ymateb yn gadarnhaol i ystod eang o hyfforddiant perthnasol. Mae hyn yn gwella eu hyder a'u harbenigedd ac yn eu galluogi i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n fwy effeithiol.
- Mae pob aelod o'r corff llywodraethol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n briodol i'w rôl. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gyfrifoldebau'r corff llywodraethol ac maent wedi sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gadarn. Mae hyn wedi cryfhau ymagwedd yr ysgol at gadw dysgwyr yn ddiogel. Maent yn mynychu hyfforddiant yn yr ysgol o'u gwirfodd ac, erbyn hyn, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o agweddau penodol ar ddiogel, fel cymorth i Blant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal.

At ei gilydd, mae arweinwyr yn cael effaith gadarnhaol ar fynd i'r afael â'r argymhellion ac maent yn awyddus i barhau i adeiladu ar y cynnydd y maent wedi'i wneud eisoes er lles eu disgyblion.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6742383

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol